Senedd Cymru / Welsh Parliament
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and Communications Committee
Ymchwiliad i'r achosion o COVID-19 ac effaith y feirws ar ddiwylliant, y diwydiannau creadigol, treftadaeth, cyfathrebu a chwaraeon / Inquiry into the COVID-19 outbreak and its impact on culture, creative industries, heritage, communications and sport
CWLC COV30
Ymateb gan Chwaraeon Cymru / Response from Sport Wales

# Effaith COVID-19 ar y Sector Chwaraeon yng Nghymru

# Briff i Bwyllgor Diwylliant, yr Iaith Gymraeg a Chyfathrebu Senedd Cymru

**Chwaraeon Cymru**

Ni yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu a hybu chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru.

Chwaraeon Cymru yw prif gynghorwr Llywodraeth Cymru ar chwaraeon ac mae'n cefnogi cyflawni ei blaenoriaethau strategol drwy'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru a Strategaeth Chwaraeon Cymru.

Hefyd rydym yn dosbarthu grantiau'r Loteri Genedlaethol i alluogi i chwaraeon yng Nghymru ffynnu, gan fuddsoddi mewn chwaraeon ar lawr gwlad drwy gynlluniau grant cymunedol yn ogystal â chwaraeon perfformiad.

**Yr heriau allweddol**

- Mae'r sector yn wynebu effaith ariannol sylweddol. Ar lefel clwb, corff rheoli cenedlaethol, awdurdod lleol ac ymddiriedolaeth hamdden, mae'r effaith economaidd yn bygwth gallu chwaraeon i ddychwelyd i'r lefel o weithgarwch oedd yn bodoli cyn Covid. Byddai unrhyw doriadau posib i'r sector yn cael effaith ddifrifol a hirhoedlog yn sicr ar chwaraeon a gweithgarwch corfforol ar lefel poblogaeth.
- Mae'r bwlch anghydraddoldeb presennol yn ehangu o bosib. Mae'r broblem gyda phobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is yn gwneud llai o weithgarwch corfforol yn dwysáu.

**Y cyfleoedd allweddol**

- Mae gwerthfawrogiad o'r newydd o bwysigrwydd gweithgarwch corfforol a chwaraeon. Gall eu gwneud yn rhan allweddol o'r cynllun adfer sicrhau bod agenda iechyd, addysg a chwaraeon gydlynol yn gallu ffynnu.
- Ar sail yr ymateb i'r her economaidd a'r gwaith sy'n cael ei wneud i alluogi i chwaraeon ddychwelyd yn ddiogel, mae'r sector chwaraeon wedi bod yn unedig yn ei ddull o weithredu. Mae cyfle real i ddefnyddio'r cydweithredu hwn mewn cyd-destun polisi, yn enwedig wrth ailagor ysgolion a gosod gweithgarwch corfforol yn y cwricwlwm newydd yn y dyfodol.

**Yr Effaith ar y Sector**

*Yr effaith ar Gyrff Rheoli Cenedlaethol*

Ar hyn o bryd mae Chwaraeon Cymru yn buddsoddi tua £13m yn rhwydwaith y Cyrff Rheoli Cenedlaethol (CRhC) yng Nghymru. Er y bydd lefel y buddsoddiad gan Chwaraeon Cymru fel canran o

incwm CRhC yn amrywio, ar gyfartaledd ar draws y Cyrff Rheoli Cenedlaethol hynny byddai'r cyllid sy'n cael ei ddarparu gan Chwaraeon Cymru yn cyfateb i 56% o adnodd ariannol partner sy'n cael ei gyllido. Mae'r ffigurau hyn yn eithrio rygbi'r undeb a Chymdeithas Bêl-droed Cymru, ond mae'n cynnwys ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru.

Mae trosiant y CRhC yng Nghymru (ac eithrio Undeb Rygbi Cymru a Chymdeithas Bêl-droed Cymru) oddeutu £24m, sy'n golygu bod tua £11m ar draws y chwaraeon sy'n deillio o gyllid sy'n cael ei hunangynhyrchu neu drwy CRhC Prydeinig. Mae'r cyllid hwn yn wynebu risg ar hyn o bryd.

Mae Chwaraeon Cymru yn gweithio gyda'n partneriaid i fapio'r colli incwm o aelodaeth sy'n cael ei amcangyfrif a hyd yma mae hyn wedi cael ei amcangyfrif fel oddeutu £3.25m.

Mae gwaith cynllunio ariannol y CRhC yn y tymor byr a chanolig wedi dynodi y bydd pwysau sylweddol ar y sefydliadau hynny i gynnal lefelau'r gweithgarwch a oedd yn bodoli fel rhan o'u rhaglenni cyn y coronafeirws.

*Yr effaith ar Hamdden Gymunedol*

Ceir nifer o ymddiriedolaethau hamdden ledled Cymru y mae eu cyfleusterau wedi cael eu cau ers mis Mawrth. Mae gan y sefydliadau hyn gontractau gyda'r awdurdodau lleol ond mae ganddynt hefyd bryderon ariannol sylweddol yn y tymor byr a hefyd y tymor hwy o ran yr hyder a'r costau cysylltiedig ag ailagor cyfleusterau. Dyma'r achos ar gyfer pob Awdurdod Lleol.

Mae ymddiriedolaethau hamdden a diwylliant yn benodol yn wynebu heriau llif arian difrifol. Mae ymddiriedolaethau hamdden a diwylliant Cymru yn parhau i orfod talu cyfartaledd o bron i £168,000 o gostau misol (ac eithrio'r costau sy'n cael eu hadfer drwy'r Cynllun Cadw Swyddi ac unrhyw ostyngiad mewn gwariant sydd wedi'i drefnu). Mae'r costau hyn yn cynnwys cyfleustodau, cyfraniadau pensiwn sylweddol h.y. mae cyfraniadau cynllun pensiwn llywodraeth leol yn 17-18% (nid oes modd eu hadfer o'r Cynllun Cadw Swyddi yn uwch na'r trothwy 3%) a gwaith cynnal a chadw parhaus ar adeiladau. Mae hyn yn digwydd tra mae'r ymddiriedolaethau hamdden a diwylliant yn colli cyfartaledd o £460,000 o incwm bob mis.

**Beth mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthym?**

Yn ogystal â'r ymgysylltu parhaus â chlybiau, sefydliadau a phartneriaid chwaraeon ledled Cymru, mae Chwaraeon Cymru wedi ymgymryd â chyfres o feysydd gwaith penodol er mwyn helpu i fesur rhywfaint o'r effaith ar y sector.  Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol.

- Arolwg lefel poblogaeth fel sail i'r farn gyhoeddus, a gynhaliwyd gan ComRes. (1)
- Adroddiad effaith economaidd dau gam a gynhaliwyd gan Ganolfan Ymchwil y Diwydiant Chwaraeon ym Mhrifysgol Sheffield Hallam. (2)

*Arolwg Poblogaeth ComRes: (1)*

Cynhaliwyd arolwg ar 1,007 o oedolion Cymru (16+ oed) rhwng 8 a 12 Mai er mwyn casglu data am lefelau gweithgarwch ac ymddygiad y cyhoedd yn ystod y cyfyngiadau symud. Arweiniodd y gwaith arolygu hwn, a gynhaliwyd ochr yn ochr ag arolwg tracio Sport England, at sawl dangosydd lefel

uchel sydd wedi dylanwadu ar ddealltwriaeth Chwaraeon Cymru a'r sector o'r heriau sy'n dod i'r amlwg. Byddem yn hapus i rannu tablau data llawn yr arolwg ar gais hefyd.

Mae effaith sylweddol wedi bod ar lefelau gweithgarwch pobl, gyda'r rhai o grwpiau economaidd-gymdeithasol is wedi'u heffeithio fwyaf difrifol. Roedd strategaeth Chwaraeon Cymru wedi datgan eisoes y dylid targedu adnoddau at y grŵp hwnnw mewn cymdeithas. Mae'r cyfnod presennol yma wedi dwysáu'r angen hwn, nid yn unig yn y sector chwaraeon, ond ar draws pob portffolio polisi, drwy gydol argyfwng parhaus COVID-19 ac yn y dyfodol.

Mae lefelau gweithgarwch corfforol plant a phobl ifanc wedi gostwng. Bydd trechu effaith hyn fel rhan o'r cwricwlwm newydd a dychwelyd i amgylchedd ysgol yn hanfodol.

Mae dwy ran o dair o'r boblogaeth yn ymarfer i reoli eu hiechyd corfforol a meddyliol. O ystyried y nifer uchel o bobl sy'n dewis gwneud hyn, mae'n hanfodol bod darparu mwy o gyfleoedd i ymarfer yn rhan allweddol o "gynllun adfer" Llywodraeth Cymru.

Gellir darparu manylion llawn am dablau data'r arolwg ar gais.

*Effaith Gwerth Economaidd (2)*

Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud mewn dau gam. Pwyslais cam un oedd creu astudiaeth bragmataidd yn defnyddio canlyniadau arolygon a data sydd ar gael yn gyhoeddus eisoes.

Ar hyn o bryd mae cam dau yn cael ei roi ar waith a bydd yn ymwneud yn llawn â'r model economaidd o chwaraeon yng Nghymru, parhau i edrych ar y sefyllfa gyda'r clybiau, a chasglu tystiolaeth ar gyfer cyfraddau cymryd rhan a gwariant defnyddwyr ar chwaraeon. Byddai cwestiynau'r ymchwil yn adeiladu ar waith cam un, gan geisio creu model economaidd llawn ar gyfer Cymru yn seiliedig hefyd ar yr argyfwng presennol.

Dynododd adroddiad Cam Un, a dderbyniwyd gan Chwaraeon Cymru ar Fehefin 9fed, ar sail y rhagdybiaeth bod adferiad mewn cyflogaeth a gweithgarwch erbyn mis Medi eleni y byddwn ni'n dal i weld effaith -18% ar wariant defnyddwyr yn y byd chwaraeon am y flwyddyn, yn cyfateb i ostyngiad o £217.5m. O ran gwerth ychwanegol gros, byddai hwn yn ostyngiad -17% ar y flwyddyn, gan gyfateb i ostyngiad o £206m. Byddai unrhyw gyfnod estynedig yn cynyddu'r effaith yma.

**Pa gefnogaeth mae Chwaraeon Cymru wedi'i rhoi yn ei lle?**

*Hyblygrwydd Gyda Chyllid*

Y dull o weithredu ar unwaith gyda heriau COVID-19 i'r sector chwaraeon oedd gweithio i sicrhau bod sefydliadau, clybiau a chyfleusterau chwaraeon yn goroesi. Un penderfyniad allweddol yn y cyswllt hwn oedd bod yn fwy hyblyg o ran y ffordd yr oedd partneriaid Chwaraeon Cymru yn cael defnyddio eu cyllid. Cyflwynwyd llythyrau cynnig i'r holl bartneriaid sy'n cael eu cyllido ar y 1af o Ebrill a chytunwyd y gallai'r rhain gael eu derbyn ar e-bost, gyda'r taliadau'n cael eu gwneud ar fyrder. Nodwyd gennym y byddem yn hyblyg gyda sut byddai'r cyllid yn cael ei ddefnyddio, yn enwedig yn ystod y 12 wythnos cychwynnol, ond ailadroddwyd y byddai'n rhaid i'r partneriaid sicrhau bod unrhyw newidiadau'n cael eu tracio er mwyn cydymffurfio â disgwyliadau a gofynion

archwilio. Proseswyd cyfanswm o 68 o daliadau'n dod i gyfanswm o £6,008,953.30 ar yr 16eg o Ebrill, gan adael dim ond nifer bach o bartneriaid a gyllidir yn flynyddol yn derbyn taliad ar ôl y dyddiad hwn.

*Y Gronfa Cymorth Mewn Argyfwng*

Gan ymateb i'r problemau ar unwaith oedd clybiau'n eu hwynebu, lansiwyd y Gronfa Cymorth Mewn Argyfwng gennym ar y 9fed o Ebrill yn defnyddio £200,000 o gyllid wedi cael diben newydd o gyllidebau Chwaraeon Cymru a chyllid ychwanegol o £200,000 gan Lywodraeth Cymru.

Roedd y cyllid argyfwng a gafodd ei roi i'r naill ochr ar gyfer chwaraeon cymunedol nid-er-elw yng Nghymru wedi'i dargedu ar gyfer clybiau oedd eisoes yn wynebu heriau sylweddol ar ôl ychydig o wythnosau anodd ac a oedd angen cefnogaeth ariannol ar unwaith yn ystod y 12 wythnos ganlynol (hyd at 30ain Mehefin 2020). Roedd cyfle i bob Clwb cymwys wneud cais am uchafswm o £5,000.

Roedd y Gronfa Cymorth Mewn Argyfwng yn talu am wariant ar y canlynol:

- Rhent.
- Costau cyfleustodau.
- Yswiriant.
- Llogi cyfleusterau neu offer (os oedd cost sefydlog).
- Gweithgareddau neu gostau na ellir eu hadfer o ffynonellau cyllid y llywodraeth.
- Hefyd gallai clybiau oedd wedi'u heffeithio gan lifogydd diweddar fod â chostau cyfalaf neu gostau glanhau na allent dalu amdanynt.

Gwnaeth Chwaraeon Cymru benderfyniad yng nghanol mis Mai i gynyddu'r gronfa gyda £150,000 pellach o'n cyllidebau y rhoddwyd diben newydd iddynt.

Wrth lunio'r nodyn briffio hwn, roedd cyfanswm o 633 o geisiadau wedi'u cyflwyno. Er bod sawl cais yn aros am benderfyniad, gyda'r rhain yn cael eu prosesu o fewn cyfnod o ddeg diwrnod yn bennaf, mae ymrwymiadau wedi cael eu gwneud i 280 o glybiau, yn dod i gyfanswm o £527,120. Cafodd y rhan fwyaf o'r ceisiadau oedd yn aflwyddiannus eu gwrthod am eu bod yn gwneud cais am eitemau y tu hwnt i feini prawf y gronfa argyfwng. Fodd bynnag, mae'r ymgeiswyr wedi cael cyngor y byddant yn gallu gwneud cais i elfen Cronfa Agored y Gronfa Cadernid Chwaraeon, a fydd yn olynu'r Gronfa Argyfwng, ac mae disgwyl iddi gael ei lansio ddechrau mis Gorffennaf.

*Y Gronfa Cadernid Chwaraeon*

Gan weithio gyda Llywodraeth Cymru, rydym wedi rhoi diben newydd i gyfanswm o £8.5m o gyllid Chwaraeon Cymru yn y lle cyntaf, fel rhan o'r Gronfa Cadernid Chwaraeon. Diben y ffrwd gyllido hon yw gwarchod y sefydliadau chwaraeon a gweithgarwch corfforol presennol sy'n cael eu heffeithio'n negyddol gan bandemig y coronafeirws, a hefyd paratoi a chryfhau sefydliadau chwaraeon a gweithgarwch corfforol (gan gynnwys y rhai y tu hwnt i bartneriaid presennol) er mwyn ffynnu a chefnogi pobl yng Nghymru i fwynhau bod yn actif yn y dyfodol (cyflawni'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru).

Roedd y Gronfa Argyfwng yn rhaglen ceisiadau agored ond bydd y Gronfa Cadernid Chwaraeon yn ddull o weithredu sydd wedi'i dargedu, yn nodi'n benodol lle gellir defnyddio buddsoddiadau i wneud iawn am y bwlch anghydraddoldeb sy'n ehangu.

**Dychwelyd at Chwaraeon**

Mae dull o weithredu cydweithredol ar draws y sector yn cael ei roi ar waith i ddychwelyd at chwaraeon ac ymarfer. Drwy gydweithio, nododd y sector fframwaith sylfaenol ar gyfer dychwelyd fesul cam a amlinellwyd ym map ffordd 'Llacio'r cyfyngiadau ar ein Cymdeithas a'n Heconomi' Llywodraeth Cymru.

| **Cyfyngiadau Symud** | Ymarfer unwaith y dydd y tu allan i'r cartref ar eich pen eich hun neu gydag unrhyw un sy'n byw yn yr un tŷ â chi. |
|---|---|
| **Coch** | Ymarfer mwy nag unwaith y dydd a gweithgarwch ar hap yn lleol. Cyrsiau chwaraeon awyr agored i agor. Athletwyr elitaidd yn dychwelyd at ryw fath o weithgarwch |
| **Oren** | Chwaraeon tîm ac unigol, chwaraeon a gemau di-gyswllt mewn grwpiau bach dan do ac yn yr awyr agored. Rhai digwyddiadau awyr agored gyda chapasiti cyfyngedig a digwyddiadau tu ôl i ddrysau caeedig ar gyfer darlledu. |
| **Gwyrdd** | Pob camp a gweithgaredd hamdden a diwylliannol ar agor, gyda chadw pellter corfforol. Pob digwyddiad yn ailddechrau gyda chapasiti cyfyngedig. |

Bydd amseriad a graddfa'r gweithgarwch fydd yn ailddechrau ar draws y pedair thema ar y map ffordd yn amrywio wrth i ni symud drwy'r camau ar gyfer codi allan o'r cyfyngiadau symud. Fodd bynnag, mae'r neges yn glir: mae rhai gweithgareddau – oherwydd y cyfyngiadau a orfodir gan gadw pellter cymdeithasol – yn haws eu hailddechrau'n gynharach nag eraill ac mae angen dull cydlynol o weithredu.

Ers cyhoeddi'r map ffordd, mae'r sector wedi parhau i ddatblygu dull unedig o weithredu. Penllanw hyn yw sefydlu grwpiau penodol, gyda chynrychiolaeth ar draws y gweithgarwch chwaraeon ledled Cymru, i ystyried yr heriau mwy penodol yn gysylltiedig â'r themâu canlynol:

- Chwaraeon elitaidd a phroffesiynol;
- Chwaraeon awyr agored; a
- Chwaraeon dan do
- Cyfleusterau hamdden.

Pwrpas pob grŵp yw datblygu dull o weithredu ar gyfer dychwelyd fesul cam ac ystyried y cyfleoedd y gellir eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru fel rhan o bob adolygiad 21 diwrnod. Hefyd rhaid i'r grwpiau hyn ystyried y cyfarwyddyd gofynnol i gefnogi'r sector.

Gan fod llawer o'r materion yn cael eu rhannu ar draws gwahanol chwaraeon, gan ddibynnu ar y cyd-destun ar gyfer eu cynnal, gellir gwneud cynnydd sylweddol drwy gydweithio. Gyda'n gilydd mae

ein ffocws ar annog cydweithredu rhwng y cyrff rheoli chwaraeon a darparwyr cyfleusterau, i gydweithio i ddod o hyd i atebion dychwelyd fesul cam priodol. Mae pob grŵp yn ystyried sut bydd unrhyw argymhellion yn effeithio ar deuluoedd incwm isel a chyfranogwyr anabl, er mwyn sicrhau bod dull o weithredu'r grwpiau mor gynhwysol â phosib.

Mae'r sector wedi bod yn glir y dylai chwaraeon fod yn gyfrifol a gweithredu'n ddoeth wrth ddychwelyd at chwaraeon. Roedd argymhellion y sector, fel sail i'r adolygiad ar 29 Mai, yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Gyrru 'yn lleol' i gymryd rhan mewn chwaraeon ac ymarfer
- Cymryd rhan mewn chwaraeon ac ymarfer gyda pherson arall o'r tu allan i'ch cartref
- Paratoi ar gyfer agor cyrtiau chwaraeon awyr agored
- Paratoi ar gyfer dychweliad fesul cam chwaraeon elitaidd

Cafodd yr argymhellion hyn i gyd ymateb cadarnhaol yn yr adolygiad ar 28 Mai, ac felly nawr mae'r ffocws ar ddatblygu'r achos a chyfarwyddyd i gyd-fynd ar gyfer agor cyrtiau chwaraeon awyr agored a dychweliad chwaraeon elitaidd fesul cam.